

# Capiau cwyr a ffyngau'r glaswelltir

## Canllaw adnabod a rheoli

**Nod y canllaw hwn yw codi ymwybyddiaeth o grŵp o ffyngau y mae Cymru'n bwysig yn fyd-eang amdanynt – y capiau cwyr, a ffyngau eraill sy'n ymddangos mewn glaswelltiroedd ac ar lawntiau ar ddiwedd yr haf ac yn yr hydref.**

**Yn cael eu hadnabod fel "ffyngau cap cwyr y glaswelltir", mae'r grŵp hwn yn cael ei nodweddu gan y capiau cwyr lliwgar, ond mae'n cynnwys rhywogaethau carismatig eraill fel y ffyngau cwrel, tagellau pinc a thafodau daear. Mae unrhyw laswelltir sydd â ffyngau'n ymddangos ar ddiwedd yr haf ac yn yr hydref yn debygol o fod o ddiddordeb ac yn werth ymchwilio ymhellach iddo drwy ddefnyddio'r canllaw hwn. Bydd yn eich helpu i wneud y canlynol:**

- **Adnabod rhai o ffyngau capiau cwyr mwy nodedig y glaswelltir.**
- **Adnabod glaswelltir capiau cwyr ac asesu pa mor bwysig yw safle drwy ddefnyddio cerdyn sgorio syml.**
- **Rheoli glaswelltir capiau cwyr drwy roi arweiniad ar yr arferion y dylid eu hannog neu eu hosgoi.**

## Beth yw ffwng?

Mae ffyngau yn ffurfio eu teyrnas fiolegol eu hunain, yn wahanol i blanhigion, anifeiliaid, a bacteria, ac yn cynnwys organebau cyfarwydd fel llwydni, burumau a madarch. Mae ffyngau'r glaswelltir yn byw o dan y ddaear, gan ffurfio rhwydweithiau cymhleth o edafedd mân o'r enw myseliwm; dim ond y corff ffrwytho, y "fadarchen" neu'r "caws llyffant" sy'n cynhyrchu sborau, sydd i'w weld uwchben y ddaear ar rai adegau o'r flwyddyn. I ychwanegu dirgelwch pellach, nid yw'r ffwng o reidrwydd yn cynhyrchu cyrff ffrwytho bob blwyddyn, felly gall fod yn anodd dod o hyd i ffyngau weithiau.

## Beth yw capiau cwyr, a glaswelltiroedd capiau cwyr?

Mae capiau cwyr yn fadarch siâp cyfarwydd sydd yn aml yn llachar eu lliw ac sydd fel rheol â chap cwyraidd neu lithrig yr olwg. Maent i'w gweld ochr yn ochr â ffyngau eraill fel ffyngau pastwn a chwrel, tagellau pinc a thafodau daear, mewn glaswelltiroedd sy'n cael eu pori neu eu torri sy'n brin o faethynnau, ac sydd wedi hen sefydlu. Mae hyn yn cynnwys hen borfa, twyni tywod, rhostiroedd, lawntiau a mynwentydd. Mae "glaswelltir capiau cwyr" yn borfa, dôl neu ardal o laswellt lle mae'r ffyngau hyn i'w cael.

## Pam mae glaswelltiroedd capiau cwyr yn bwysig?

Mae glaswelltiroedd y DU ymhlith y rhai pwysicaf yn y byd ar gyfer ffyngau'r glaswelltir. Mae eu hoffter o borfeydd hynafol a glaswelltiroedd nad ydynt wedi cael eu gwella'n amaethyddol yn golygu bod llawer o rywogaethau'n brin ac yn dirywio mewn niferoedd.

Mae tua 20 rhywogaeth o ffyngau'r glaswelltir wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n agored i niwed yn fyd-eang (neu'n brinnach) gan yr IUCN. Hefyd mae ffyngau'r glaswelltir yn ymddangos ar y rhestr o "Rhywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf i Warchod Bioamrywiaeth yng Nghymru" (Adran 7, Deddf yr Amgylchedd [Cymru], 2016). Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd i roi sylw dyledus i'w cadwraeth. Nodir y rhywogaethau hyn gan "S7" yn y canllaw hwn.

## Adnabod ffyngau'r glaswelltir gyda'r canllaw hwn

Y ffordd orau o adnabod capiau cwyr yw drwy archwilio nifer bach o sbesimenau ffres sydd mewn cyflwr da ac mewn gwahanol gamau o dyfiant, gan fod eu maint, eu siâp a'u lliw yn newid yn aml gydag oedran. Peidiwch â chasglu mwy na sydd raid o'r ffyngau prin yma o'r gwyllt oni bai eich bod gydag archwiliwr profiadol.

## Dyma'r nodweddion allweddol i chwilio amdanynt:

**Lliw cap, coesyn a thagellau'r cyrff** ffrwytho.

**Siâp a dimensiynau cyffredinol** y corff ffrwytho; beth yw diametr y cap? A yw'n siâp côn (pigfain), cromen (crwn), amgrwm, neu fflat? Oes ganddo unrhyw nodweddion eraill fel lwmp amlwg yn y canol (o'r enw boglyn)?

**Sut mae'r tagellau wedi'u hatodi** i'r cap. Gellir disgrifio tagellau fel rhai sydd wedi'u cysylltu gyda darn cul neu brin wedi'u cysylltu â'r coesyn, wedi'u cysylltu'n fras, neu'n lloresttynnol (lle mae'r tagellau'n rhychog i lawr y coesyn fel nenfwd cromennog)

**Gwead y cap a'r coesyn:** gall sbesimenau ffres a welir mewn tywydd sych fod yn llysnafeddog, yn ludiog, yn llaith neu'n sych a gallant ymddangos yn llyfn, torri'n gennau bras tebyg i blu neu fod wedi'u gwneud o ffibrau cyfochrog gwahanol (o'r enw ffibrilos).

**Arogl y sbesimen** ar ôl cynhesu darn yn y llaw yn ofalus neu ei roi mewn cynhwysydd caeedig am gyfnod byr. Er mai dim ond ychydig o rywogaethau sydd ag arogl nodedig, gall hwn fod yn gliw pwysig. Yr arogleuon arbennig sy'n berthnasol i gapiau cwyr yw olew, mêl a chedrwydd.

Gall ffotograffau fod yn ddefnyddiol iawn os ydych chi'n cyflwyno manylion i arbenigwyr neu fforymau ar y rhyngrwyd am gyngor, ond cofiwch gynnwys gwrthrych ar gyfer graddfa a cheisio dangos cymaint o nodweddion â phosibl, gan gynnwys ochr isaf y cap.

Nid yw'r rhan fwyaf o ffyngau yn wenwynig; mae hyd yn oed y rhai gwenwynig yn ddiogel i'w dal. Fodd bynnag, golchwch eich dwylo bob amser ar ôl trin ffyngau. Sylwch nad bwriad y canllaw hwn yw helpu i adnabod rhywogaethau bwytadwy.

Ar y tudalennau nesaf mae lluniau a nodiadau adnabod wedi'u cynnwys ar gyfer rhai ffyngau glaswelltir cyffredin neu ddiddorol sydd i'w cael yng Nghymru.

Mae mwy na 40 rhywogaeth o gapiau cwyr, ac amrywiaeth debyg o gwrelau, tagellau pinc a thafodau daear yn y DU.

# Capiau Cwyr Coch

## Cap Cwyr Coch *Hygrocybe coccinea*



**Cap:** Coch, llaith a chromennog ar y dechrau, gan ddatblygu i fod yn fwy gwastad gydag oedran.

**Diametr y cap:** I 60mm.

**Tagellau:** Coch neu felyn, wedi'u cysylltu'n fras â'r coesyn.

**Coesyn:** Coch neu oren, sych a llyfn.

**Nodiadau:** Rhywogaeth gyffredin mewn glaswelltir heb ei wrteithio, yn ymddangos mewn grwpiau mawr yn aml.

## Cap Cwyr Rhuddgoch *Hygrocybe punicea*



**Cap:** Coch gwaed, llaith a chromennog neu amgrwm. Mae sbesimenau hŷn sydd wedi'u hindreulio yn datblygu cap dau liw amlwg gyda chanol llwydfelyn i felyn golauach.

**Diametr y cap:** I 150mm.

**Tagellau:** Browngoch i felyn, wedi'u cysylltu'n gul â'r coesyn.

**Coesyn:** Melyn i oren, sych a ffibrilos.

**Nodiadau:** Rhywogaeth gadarn a thrawiadol sydd wedi'i chyfyngu'n bennaf i laswelltir hirsefydlog sy'n brin o faethynnau lle gall ymddangos mewn niferoedd da. Mae'r rhywogaeth yma'n ddangosydd pwysig o safleoedd o ansawdd uchel.

## Cap Cwyr Ysblennydd *Hygrocybe splendidissima*



**Cap:** Coch a sych. Fel arfer yn lled gonigol i ddechrau, gan ddatblygu i fod yn fwy gwastad neu ychydig yn amgrwm gyda boglyn llydan.

**Diametr y cap:** I 70mm.

**Tagellau:** Coch neu felyn, wedi'u cysylltu'n gul â'r coesyn

**Coesyn:** Coch neu oren, sych a llyfn.

**Nodiadau:** Rhywogaeth anghyffredin mewn glaswelltir hirsefydlog sy'n brin o faethynnau. Mae gan sbesimenau sy'n sychu arogl mêl nodedig sy'n helpu i wahaniaethu rhwng y cap cwyr yma a sbesimenau mawr o *H. coccinea*. Rhywogaeth arall sy'n dynodi safleoedd hanesyddol o ansawdd uchel.

# Capiau Cwyr Pinc

## Cap Cwyr Pinc neu Falerina *Porpolomopsis calyptriformis*



**Cap:** Pinc, llaith a chymharol gonigol i ddechrau ond mae'r ymyl yn hollti ac yn troi ar i fyny gydag oedran.

**Diametr y cap:** I 100mm.

**Tagellau:** Pinc golau, rhydd neu wedi'u cysylltu'n gul â'r coesyn.

**Coesyn:** Gwyn, sych a llyfn.

**Nodiadau:** Hawdd ei adnabod ac mae cofnodion eang ohono mewn glaswelltir heb ei wrteithio.

# Capiau Cwyr Melyn neu Oren

## Cap Cwyr Euraidd *Hygrocybe chlorophana*



**Cap:** Melyn neu oren, gwlyb a / neu ludiog, cromennog ar y dechrau, gan ddatblygu i fod yn fwy gwastad gydag oedran.

**Diametr y cap:** I 70mm.

**Tagellau:** Yn gul neu brin wedi'u cysylltu â'r coesyn.

**Coesyn:** Melyn neu oren, sych fel arfer, ond weithiau'n llaith.

**Nodiadau:** Rhywogaeth gyffredin mewn glaswelltir heb ei wrteithio. Mae rhywogaeth debyg, Cap Cwyr Menyn *H. ceracea*, yn llai fel rheol ac yn cynnwys tagellau sydd wedi'u cysylltu'n fras â'r coesyn.

## Cap Cwyr Duol *Hygrocybe conica*



**Cap:** Melyn, coch neu oren ac wedyn yn duo gydag oedran neu ddifrod. I ddechrau yn llaith ond yn dod yn sych. Siâp côn nodedig i ddechrau, yn newid fawr ddim gydag oedran.

**Diametr y cap:** I 100mm.

**Tagellau:** Llwydwyn ar y dechrau, wedi'u cysylltu'n gul â'r coesyn.

**Coesyn:** Melyn neu oren, yn llaith i ddechrau, yn sych yn ddiweddarach, ac yn troi'n ddu.

**Nodiadau:** Rhywogaeth gyffredin mewn glaswelltiroedd heb eu ffrwythloni a thwyni tywod. Er ei fod yn cael ei drin fel un rhywogaeth, gall gynrychioli nifer o rywogaethau tebyg mewn gwirionedd.

## Cap Cwyr Gludiog *Hygrocybe glutinipes*



**Cap:** Yellow, orange or red and very slimy. Domed at first, becoming bell-shaped and then more or less flat.

**Diameter of cap:** To 30mm.

**Gills:** Broadly attached to the stem.

**Stem:** Colour as cap, very slimy - sometimes with conspicuous blobs of slime.

**Notes:** A common species in unfertilised grassland, often appearing early in the season from mid-summer if conditions are suitably moist.

## Cap Cwyr Olewog *Hygrocybe quieta*



**Cap:** Oren pŵl a sych neu seimllyd. Amgrwm wedyn yn fwy gwastad gydag oedran, yn aml yn ystumio ac yn hollti yn y canol.

**Diametr y cap:** I 80mm.

**Tagellau:** Lliw oren i eog, ac wedi'u cysylltu'n gul neu'n fras â'r coesyn.

**Coesyn:** Oren, llyfn a sych. Fel arfer mae gan sbesimenau arogl olewog gwan.

**Nodiadau:** Rhywogaeth achlysurol mewn glaswelltir heb ei wrteithio.

## Capiau Cwyr Melyn neu Oren

### Cap Cwyr y Rhosydd *Gliophorus laetus*



**Cap:** Gwyrdd pŵl i oren a llysnafeddog. Amgrwm ar y dechrau ond yn datblygu i fod yn fwy gwastad gydag oedran.

**Diametr y cap:** I 50mm.

**Tagellau:** Llwydwyn gydag ymyl clir (haws ei weld gyda chwydd-wydr).

**Coesyn:** Gwyrdd pŵl i felyn a llysnafeddog.

**Nodiadau:** Ddim yn anghyffredin ar bridd asidig ac ymhlith mwsogl mewn ardaloedd llaith. Mae'r sbesimenau'n gymharol wydn pan gânt eu sathru ac mae ganddynt arogl nodweddiadol sy'n debyg i rwber yn llosgi yn ôl pob tebyg.

### Cap Cwyr Pêr *Hygrocybe reidii*



**Cap:** Oren a sych. Gwastad neu ychydig yn amgrwm, gydag ymyl tonnog yn aml.

**Diametr y cap:** I 50mm.

**Tagellau:** Melyn i oren, ac wedi'u cysylltu'n fras neu ychydig yn llorestynnol.

**Coesyn:** Melyn i oren, sych a llyfn.

**Nodiadau:** Rhywogaeth achlysurol mewn glaswelltir heb ei wella. Mae sbesimenau'n arogli fel mêl wrth eu rhwbio neu eu sychu.

## Capiau Cwyr Brown neu Lwydfelyn

### Date-coloured Waxcap *Hygrocybe spadicea*



**Cap:** Lliw brown gwinau nodedig dros gorff ffrwytho â chnawd melyn. Mae'r cap yn siâp côn ar y cyfan, yn mynd yn sych ac yn hollti ar yr ymyl gydag oedran.

**Diametr y coesyn:** I 80mm.

**Tagellau:** Melyn neu oren golau ac wedi'u cysylltu'n gul neu brin wedi'u cysylltu â'r coesyn.

**Coesyn**: Melyn neu oren golau a ffibrilos.

**Nodiadau:** Pur anaml y ceir hyd iddynt yn y maes ac eithrio yn ystod blynyddoedd ffafriol achlysurol.

### Meadow Waxcap *Cuphophyllus pratensis*



**Cap:** Brown i oren yn pylu i liw llwydfelyn golau iawn, sych. Cromennog ar y dechrau, doatblygu i fod yn fwy gwastad gydag oedran.

**Diametr y cap:** I 120mm.

**Tagellau:** Hufen i lwydfelyn golau, llorestynnol.

**Coesyn:** Gwyn, sych, ffibrilos mân.

**Nodiadau:** Cap cwyr amlwg a chadarn sy'n aml yn goroesi am sawl wythnos. Yn gyffredin mewn glaswelltir heb ei wrteithio, mewn cylchoedd mawr weithiau.

## Capiau Cwyr Gwyrdd

### Cap Cwyr y Parot *Gliophorus psittacinus*



**Cap:** Fel arfer yn wyrdd yn bennaf yn troi'n felynwyrdd neu'n gyfan gwbl felyn gydag oedran, ac yn llysnafeddog iawn. Cromennog ar y dechrau, gyda lwmp amlwg ar ben y cap weithiau, gan ddatblygu i fod yn fwy gwastad gydag oedran.

**Diametr y cap:** I 40mm.

**Tagellau:** Eithaf llydan, ond wedi'u cysylltu'n gul â'r coesyn.

**Coesyn:** Yr un lliw â'r cap ond olion gwyrdd tua'r brig bob amser bron, llysnafeddog.

**Nodiadau:** Rhywogaeth gyffredin ac eithaf amrywiol mewn glaswelltir heb ei wrteithio. Weithiau gwelir enghreifftiau porffor a lliw coch fel brics.

## Capiau Cwyr Gwyn

### Cap Cwyr Claerwyn *Cuphophyllus virgineus*



**Cap:** Gwyn, llaith, a chromennog i ddechrau, gan ddatblygu i fod yn fwy gwastad gydag oedran.

**Diametr y cap:** Yn gyffredinol i 50mm, weithiau hyd at 70mm.

**Tagellau:** Llorestynnol.

**Coesyn:** Gwyn a llaith.

**Nodiadau:** Un o'r capiau cwyr sy'n cael ei gofnodi fwyaf mewn glaswelltir heb ei wrteithio. Rhywogaeth amrywiol sy'n cynnwys mathau sydd â lliwiau llwydfelyn golau i frown ar y cap. Rhywogaeth debyg yw'r Cap Cwyr Cedrwydd *Cuphophyllus russocoriaceus* sydd ag arogl pren cedrwydd nodedig a dymunol.

## Tafodau Daear

### Tafod Daear Melynwyrdd *Microglossum olivaceum S7*



**Corff ffrwytho:** Pastynau lliw coch tywyll, brown neu wyrdd olewydd neu 'dafodau' yn dod allan o'r pridd.

**Maint y corff ffrwytho:** Hyd at 70mm o uchder.

**Coesyn:** Gydag arlliwiau o wyrdd olewydd fel rheol.

**Nodiadau:** Yn cael ei hystyried fel rhywogaeth gyfansoddol. Yn wahanol i'r mwyafrif o'r 12 rhywogaeth o dafodau daear lliw tywyll, gellir adnabod y rhain yn y maes yn aml heb fod angen archwiliad microsgopig.

### Tafod Daear Dulas *Geoglossum atropurpureum S7*



**Pur anaml y cofnodir y tafod daear yma, sy'n edrych ar yr wyneb fel sawl rhywogaeth arall gysylltiedig ac sydd angen archwiliad microsgopig i'w adnabod yn hyderus.**

## Madarch Llwydlas

**Tagell Binc Fawr Las** *Entoloma bloxamii S7*



**Cap:** Lliw llwydlas nodedig pan yn ffres. Siâp côn ar y dechrau ond yn dod yn amgrwm ac yn datblygu boglyn.

**Diametr y cap:** I 100mm.

**Tagellau:** Gwyn, yn troi'n binc eog, ac wedi'u cysylltu'n fras.

**Coesyn:** Yr un lliw â'r cap, weithiau'n oleuach yn y bôn, a ffibrilos.

**Nodiadau:** Y lleoliad mwyaf tebygol i'w canfod nhw yw mewn glaswelltiroedd hirsefydlog heb eu gwrteithio, ar briddoedd niwtral neu galchaidd fel rheol. Rydym yn gwybod bellach bod hwn yn gyfansoddiad o rywogaethau tebyg y mae'n anodd gwahaniaethu rhyngddyn nhw. Daw eu henw o'u sborau pinc sy'n troi eu tagellau yn binc wrth iddyn nhw aeddfedu.

## Ffyngau Cwrel

**Cwrel Fioled** *Clavaria zollingeri S7*



**Corff ffrwytho:** Siâp cwrel ac o liw porffor-fioled nodedig.

**Maint y corff ffrwytho:** 30 i 100mm o uchder a hyd at 80mm ar draws. Mae'r coesynnau unigol yn 4 i 7mm mewn diametr yn y bôn fel rheol, gan ganghennu i fyny ac am allan.

**Nodiadau:** Rhywogaeth brin o laswelltir heb ei wella, a welir amlaf yng Nghymru a Lloegr.

## Sut ydw i'n gwybod bod gennyf laswelltir capiau cwyr da?

**Chwiliwch am y ffyngau gwahanol liwiau tebyg i fadarch ac ar gyfer pob grŵp lliw ychwanegwch y pwyntiau perthnasol at ei gilydd.**

| | |
|---|---|
| **Coch** (e.e. *H. coccinea, punicea, splendidissima)* | **5 pwynt** |
| **Pinc** (e.e. *P. calyptriformis)* | **5 pwynt** |
| **Oren** (e.e. *H. reidii, quieta, G. laetus)* | **2 bwynt** |
| **Llwydfelyn/brown** (e.e. *C. pratensis)* | **2 bwynt** |
| **Melyn** (e.e. *H. chlorophana, glutinipes)* | **2 bwynt** |
| **Oren/melyn yn troi'n ddu** (e.e. *H. conica)* | **1 pwynt** |
| **Gwyrdd** (e.e. *G. psittacinus)* | **1 pwynt** |
| **Gwyn** (e.e. *C. virgineus)* | **1 pwynt** |

**Oes ffyngau glaswelltir eraill? Ychwanegwch y pwyntiau ar gyfer y grwpiau canlynol.**

| | |
|---|---|
| **Cwrel Fioled** (*Clavaria zollingeri*) | **5 pwynt** |
| **Tafod Daear** (unrhyw rai) | **2 bwynt** |

## Beth yw eich sgôr terfynol?

**Mae sgorau o 0 i 4** yn dynodi glaswelltiroedd a reolir yn ddwysach gyda lefel y diddordeb o ran ffyngau'r glaswelltir yn isel, ond byddwch yn ymwybodol nad yw hyn yn wir bob amser. Weithiau nid yw ffyngau yn ffrwytho os yw'r llystyfiant yn rhy drwchus, neu'r tywydd yn rhy sych. Ni ddylech ddiystyru safle gyda sgôr isel ar unwaith. Mae'n well ymweld â safleoedd dros nifer o flynyddoedd i asesu eu diddordeb o ran ffyngau (ar adegau gwahanol o ddiwedd mis Awst i ddiwedd mis Tachwedd, diwedd mis Hydref sydd orau yn aml).

**Byddai sgorau o 5 i 11** yn dynodi safleoedd a allai fod o ddiddordeb o ran ffyngau'r glaswelltir ac a allai fod yn werth ymchwilio ymhellach iddyn nhw.

**Byddai sgorau o 12 i 24** yn dynodi safleoedd sy'n dda ar gyfer ffyngau'r glaswelltir ac sy'n werth eu harolygu ymhellach, yn enwedig gan arbenigwr.

## Beth i'w wneud nesaf

Helpwch i dynnu sylw at ffyngau'r glaswelltir yn eich ardal chi drwy gwblhau arolwg safle.

Lawrlwythwch ap Waxcap Watch Plantlife i fewnbynnu eich canfyddiadau a chyfrannu at ein gwaith yn gwarchod ffyngau'r glaswelltir: **plantlife.org.uk/waxcapwatch**. Fe all y cofnodion fyddwch chi'n eu cyflwyno ein helpu ni a sefydliadau cadwraeth eraill i nodi safleoedd pwysig a allai elwa o ymchwiliad pellach. Mae hyn yn caniatáu i'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer gwaith ymchwil ffyngaidd flaenoriaethu lleoliadau arwyddocaol, yn seiliedig ar eich cyfraniadau chi. Ac os byddwch chi'n dod o hyd i unrhyw ddarganfyddiadau sy'n arbennig o ddiddorol yn eich barn chi, neu os oes arnoch chi angen help gydag adnabod, ymunwch â'n grŵp ni ar Facebook - Waxcap Watch - lle mae cymuned gyfeillgar a chefnogol o bobl eraill sy'n frwd am ffyngau yn aros amdanoch chi.

## Rheolaeth ar gyfer ffyngau'r glaswelltir

Mae cynefinoedd sy'n gyfoethog mewn ffyngau'r glaswelltir, yn enwedig hen laswelltiroedd â ffrwythlondeb isel, yn agored i newid, e.e. drwy ddefnyddio gwrtaith, aredig, rhoi'r gorau i bori, ymlediad prysgwydd, plannu coed a datblygu. Argymhellir y canllawiau canlynol:

### Ar laswelltiroedd amaethyddol:

**Cynnal glaswelltir drwy bori gan dda byw a / neu gynaeafu glaswellt** gan fod cael gwared ar ormodedd o dyfiant yn helpu i gynnal lefel isel o faethynnau. Dylid cadw'r glaswellt yn fyr ar ddiwedd yr haf / dechrau'r hydref lle bo hynny'n ymarferol, ond mae dolydd gwair yn aml yn cynnwys amrywiaeth ardderchog o ffyngau.

**Cadwch laswelltir parhaol,** gan fod trin y pridd yn amharu ar neu'n dinistrio rhwydweithiau tanddaearol y ffyngau - y myselia. Gall ffyngau'r glaswelltir gymryd degawdau i adfer o hyn.

**Ceisiwch osgoi defnyddio gwrtaith, tail a chwynladdwyr** gan eu bod yn niweidiol i ffyngau'r glaswelltir.

**Sicrhewch nad oes unrhyw beth yn tarfu ar y draeniad presennol** gan fod llawer o rywogaethau angen amodau draenio rhydd.

**Osgowch weithgareddau sy'n achosi cywasgu'r pridd** a allai effeithio ar strwythur y pridd a niweidio'r myselia.

**Ceisiwch osgoi bwydo da byw mewn ardaloedd sensitif** oherwydd gallai hyn niweidio strwythur y pridd ac achosi cyfoethogi'r pridd yn ormodol.

**Atal ymlediad coed a phrysgwydd a'u hatal rhag sefydlu**, a fydd yn gwneud y cynefin yn llai addas ar gyfer ffyngau'r glaswelltir.

### Ar lawntiau, mewn mynwentydd ac ar laswelltiroedd amwynder:

**Cadwch y glaswellt yn fyr ar ddiwedd yr haf / hydref trwy dorri'n rheolaidd, yn ddelfrydol o fis Gorffennaf ymlaen.**

**Rhaid cael gwared ar yr holl laswellt sydd wedi'i dorri.** Mae hyn yn bwysig iawn i sicrhau nad yw maethynnau'n cronni ac yn niweidio diddordeb ffyngau'r glaswelltir. Ceisiwch osgoi baw ci am yr un rheswm.

**Osgowch ddefnyddio plaladdwyr, ffyngladdwyr, neu driniaethau lawnt perchnogol.** Efallai nad oes croeso mawr i fwsoglau ar lawntiau, ond maent yn bresennol yn y safleoedd gorau i ffyngau'r glaswelltir.

**Peidiwch ag ailhadu na chwblhau unrhyw gamau eraill sy'n niweidio strwythur y pridd yn sylweddol neu'n effeithio ar ddraeniad.** Gall cywasgu gan gerbydau fod yn arbennig o niweidiol i strwythur y pridd a gall sathru, yn enwedig ar ddiwedd yr haf / hydref, niweidio ffyngau ifanc a lleihau ffrwytho.

## Rhagor o wybodaeth

### Llyfrau

**Grassland Fungi: A Field Guide**. 2il argraffiad (2020). Cyhoeddwyd gan Grŵp Dolydd Sir Fynwy ac mae ar gael gan lyfrwerthwyr byd natur y DU.

**A Guide to Waxcaps in West Wales**. Cyhoeddwyd gan Rwydwaith Cofnodi Ffyngau Sir Benfro.

### Gwefannau

**plantlife.org.uk/waxcapwatch**
Cwrs Capiau Cwyr ar-lein am ddim Plantlife.

**aber.ac.uk/waxcap**
Mae gwefan capiau cwyr Prifysgol Aberystwyth yn darparu gwybodaeth helaeth am gapiau cwyr, gan gynnwys eu hecoleg, eu cadwraeth a'u hadnabod.

**first-nature.com/fungi/index.php**
Mae First Nature yn darparu adnodd ar-lein ardderchog ar gyfer adnabod ffyngau'r glaswelltir (a ffyngau eraill).

### Gwybodaeth a chyngor

Yr enw ar yr astudiaeth o ffyngau yw 'mycoleg'. Mae dau sefydliad mycolegol yn y DU sy'n hyrwyddo cofnodi a chadwraeth ffyngau:

The British Mycological Society
**britmycolsoc.org.uk**

The Fungus Conservation Trust
**fungustrust.org.uk**

Mae'r ddau sefydliad yn cefnogi rhwydweithiau o grwpiau a phobl frwdfrydig dros ffyngau ledled y DU a gallant ddarparu cysylltiadau â grwpiau lleol a chyfleoedd hyfforddi.

Gall Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol ac Ymddiriedolaethau Natur ddarparu manylion am arbenigwyr lleol ar ffyngau a chofnodwyr sirol yn eich ardal.

### Plantlife Cymru

**Plantlife, Brewery House**
**36 Milford Street, Salisbury**
**Wiltshire, SP1 2AP**

**enquiries@plantlife.org.uk**

**plantlife.org.uk/about-us/plantlife-cymru**

Mae Plantlife International - Yr Elusen Cadwraeth Planhigion Gwyllt yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant. Rhif Elusen Gofrestredig: Cymru a Lloegr (1059559), Yr Alban (SC038951). Rhif Cwmni Cofrestredig: Cymru a Lloegr (3166339).

Mae'r canllaw hwn wedi'i ysgrifennu a'i ddarlunio ar gyfer Plantlife Cymru gan David Harries a Dave Lamacraft, gyda thestun a deunydd ffynhonnell ychwanegol gan yr Athro Gareth Griffith.

© Plantlife Awst 2024

Pob ffotograff © PFRN (2013), S Bosanquet, R Woods
Clawr blaen: *H. coccinea* © Dave Lamacraft